



Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Rebecca Barrett
(Rhif Ffôn: 01443 864245 E-bost: barrerm@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Chwefror 2021

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd** yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams ar **Dydd Mawrth, 9fed Chwefror, 2021 am 5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr a'r cyhoedd sy'n dymuno siarad am unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n bresennol ac/neu sy'n siarad yn ystod ar gael i'r cyhoedd trwy'r recordiad ar wefan y Cyngor yn

www.caerffili.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Christina Harrhy'.

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR

A G E N D A

Tudalennau

1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach



I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- | | | |
|----|---|--------|
| 3 | Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 27ain Hydref 2020. | 1 - 4 |
| 4 | Ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor hwn yn unol â'r drefn galw i mewn. | |
| 5 | Blaenraglen Waith Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. | 5 - 14 |
| 6 | I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau* Cabinet canlynol:- | |
| 1 | Trosoglwyddo Asedau Cymunedol - Polisi a Phroses Drafft - 28ain Hydref 2020; | |
| 2. | Trwyddedau "Caffis Stryd" - 28ain Hydref 2020; | |
| 3. | Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan - 11eg Tachwedd 2020; | |
| 4. | Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd Caerffili - 25ain Tachwedd 2020; | |
| 5. | Siarter Teithio Iach Gwent - 25ain Tachwedd 2020; | |
| 6. | Gwaredu tir ym maes parcio Crescent Road, Caerffili - 25ain Tachwedd 2020; | |
| 7. | Grŵp Gorchwyl a Gorffen Meysydd Parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cyd-bwyllgor Craffu) - 13eg Ionawr 2021; | |
| 8. | Polisi Gwerthu Gorfodol - 13eg Ionawr 2021; | |
| 9. | Cynllun Brys ar gyfer Bysiau (BES) -Cynnig i Gofrestru ar gyfer BES 2 - 27ain Ionawr 2021. | |

**Os oes aelod o'r Pwyllgor Craffu yn dymuno i unrhyw un o'r adroddiadau Cabinet uchod i gael eu dwyn ymlaen ar gyfer adolygiad yn y cyfarfod, cysylltwch â Rebecca Barrett, 01443 864245, erbyn 10.00 a.m. ar dydd Llun, 8fed Chwefror 2021.*

I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau Craffu canlynol:-

- | | | |
|---|--|---------|
| 7 | Adolygiad Dilynol Swyddfa Archwilio Cymru o Ddatblygiad Strategaeth Chwaraeon a Hamdden. | 15 - 32 |
| 8 | Adroddiad Monitro Cyllideb 2020/2021. | 33 - 54 |

Cylchrediad:

Cynghorwyr M.A. Adams, A. Collis, D.T. Davies (Cadeirydd), C. Elsbury, M. Evans, A. Gair, Ms J. Gale, A. Hussey (Is Gadeirydd), S. Kent, Mrs A. Leonard, B. Owen, D.W.R. Preece, J.E. Roberts, J. Scriven, A. Whitcombe a T.J. Williams

A Swyddogion Priodol

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r [Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn](#) ar ein gwefan neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.